Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2018 Rhif 775 (Cy. 157)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Gorchymyn y Cod Gwarcheidiaeth Arbennig (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2018

Gwnaed - - - - 27 Mehefin 2018

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 146(4)(b) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Cod Gwarcheidiaeth Arbennig (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2018.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Y Diwrnod Penodedig

2. Y diwrnod penodedig i'r cod ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig ddod i rym yw 2 Gorffennaf 2018(**2**).

Huw Irranca-Davies
Y Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

27 Mehefin 2018

(**1**) 2014 dccc 4.
(**2**) Gosodwyd y Cod Gwarcheidiaeth Arbennig gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 9 Mai 2018 ac fe'i dyroddwyd ar 29 Mehefin 2018.

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn penodi 2 Gorffennaf 2018 fel y diwrnod y daw'r cod ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig i rym. Dyroddwyd y cod hwn gan Weinidogion Cymru o dan adran 145(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") ar 29 Mehefin 2018.

Mae'r cod yn gosod gofynion ac yn cynnwys canllawiau sy'n nodi nodau, amcanion a materion eraill mewn perthynas ag arfer swyddogaethau gwarcheidiaeth arbennig gan awdurdod lleol.

Mae adran 145(3) o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu yn unol ag unrhyw ofynion perthnasol sydd wedi eu cynnwys mewn cod a ddyroddir o dan adran 145(1) a rhoi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol sydd wedi eu cynnwys ynddo.

Mae'r cod ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru,llyw.cymru.